OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 2373 (Cy.249)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cyfnewidfa Ffynnon Taf, Caerdydd i Gyfnewidfa Nantgarw, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

Gwnaed	*26 Medi 2011*
Yn dod i rym	*3 Hydref 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caerdydd - Llangurig (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2),** yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Hydref 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cyfnewidfa Ffynnon Taf, Caerdydd i Gyfnewidfa Nantgarw, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwaith sydd wedi arwain at y Gorchymyn hwn, neu mewn cysylltiad â'r gwaith hwnnw, neu unrhyw gerbyd a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 3 Hydref 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A470 rhwng Cyfnewidfa Ffynnon Taf yn Sir a Dinas Caerdydd a Chyfnewidfa Nantgarw ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar hyd y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y mae'r erthygl yn cyfeirio ato yn weithredol.

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 26 Medi 2011

G R Morgan
GARETH MORGAN
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLEN

Y darn o brif gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Ffynnon Taf i drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Nantgarw.

Y darn o brif gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r de wrth Gyfnewidfa Nantgarw i drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r de wrth Gyfnewidfa Ffynnon Taf.

Y darnau cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gogledd a'r ffordd ymadael tua'r de wrth Gyfnewidfa Ffynnon Taf.

Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gogledd a thua'r de wrth Gyfnewidfa Nantgarw.